CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

Adeiladu Cymunedau

Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr

Mae canran uchel o boblogaeth Cymru (23 y cant) yn byw mewn tlodi a'r lefel dlodi ymysg plant yw'r uchaf yn y DU (31 y cant yn 2011-12). Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd y Gronfa Loteri Fawr fuddsoddiad o £15 miliwn trwy ei rhaglen Adeiladu Cymunedau i gefnogi'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru i ddatblygu eu cynlluniau eu hunain i wella'u hansawdd bywyd.

Er mwyn i hyn ddigwydd, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn sefydlu Ymddiriedolaeth annibynnol. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn buddsoddi'r arian mewn pobl leol tros gyfnod o 10 mlynedd trwy weithio mewn nifer bach o gymunedau penodol. Bydd cymunedau'n cael eu cefnogi i ddatblygu eu hatebion eu hunain i wella'u lles, cynyddu eu dyheadau, adeiladu cyfalaf cymdeithasol a chynyddu gwydnwch wrth wynebu amgylchiadau heriol.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr am benodi Cadeirydd a nifer o Gyfarwyddwyr Ymddiriedolaeth i ddatblygu'r model busnes, llunio'r rhaglen gwerth £15 miliwn a sicrhau y caiff ei chyflwyno'n effeithiol. Mae'r penodiadau hyn yn cyflwyno cyfle unigryw i unigolion ar draws y sector gwirfoddol, y byd academaidd, y sector cyhoeddus a'r gymuned fusnes fod yn rhan annatod o fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru.

Mae'r penodiadau hyn yn gofyn am ystod o sgiliau gan gynnwys dealltwriaeth ac ymrwymiad cryf i adfywio cymunedau ac egwyddorion ac arfer llywodraethu da. Bydd gennych brofiad amlwg o ddatblygu mudiadau i gyflawni llwyddiant, ynghyd â sgiliau arweinyddiaeth cadarn. Byddwch yn meddu ar wybodaeth sylweddol am waith allgymorth ac ymgysylltu cymunedol, dealltwriaeth o strategaethau a chynllunio busnes, profiad o sicrhau ariannu o ystod o ffynonellau ac ymwybyddiaeth wleidyddol dda. Byddwch yn cydnabod y cyfle heb ei ail y mae'r buddsoddiad hwn yn ei gynnig ac yn cael eich ysbrydoli i ychwanegu gwerth o'r cychwyn cyntaf.

Bydd digwyddiad gwybodaeth recriwtio'n cael ei gynnal yn ein swyddfa yng Nghaerdydd ar ddydd Mercher 4 Rhagfyr 2013. Gallwch neilltuo lle ymlaen llaw ar ein gwefan

Bydd angen i chi ymrwymo tua 24 diwrnod y flwyddyn.

Nid yw'r swyddi'n cynnig cyflog ond telir treuliau rhesymol.

I gael mwy o wybodaeth ac i lawrlwytho pecyn recriwtio, cliciwch yma.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw hanner dydd ar ddydd Llun 20 Ionawr 2014